Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw yn ysgol ofalgar a chefnogol sy’n darparu hafan ar gyfer dysgu wrth wraidd y gymuned. Mae ymdeimlad o berthyn ac ysbryd tîm yn treiddio trwy ethos yr ysgol ac yn annog staff a disgyblion i herio eu hunain a chroesawu cyfleoedd i ddatblygu eu haddysgu a’u dysgu ymhellach.

Mae arweinwyr yr ysgol yn sicrhau bod lles disgyblion yn hollbwysig mewn unrhyw benderfyniadau a wnânt. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn ffynnu ac yn frwdfrydig ynglŷn â’u dysgu a chyfleoedd i roi cynnig ar fedrau newydd. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Maent yn gwrando’n astud, yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn gweithio ar dasgau yn ddiwyd. Mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu perthnasoedd parchus gyda staff a chyfoedion. Maent yn ystyried barn ei gilydd ac yn cynorthwyo’i gilydd yn dda.

Mae’r tîm arweinyddiaeth cryf iawn, a gefnogir gan lywodraethwyr hynod effeithiol, yn mynd i’r afael â blaenoriaethau’r ysgol yn drylwyr. Mae llywodraethwyr yn gweithio gydag ysgolion eraill i ddatblygu eu dealltwriaeth o hunanwerthuso, gan eu galluogi i ddarparu cymorth gwerthfawr i arweinwyr yr ysgol i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn gywir. Mae staff yn datblygu dealltwriaeth ragorol o anghenion disgyblion unigol, ac o ganlyniad, yn eu cynorthwyo’n effeithiol i gyrraedd eu potensial.

Mae’r ysgol wedi creu cwricwlwm eang a chynhwysol, gyda chyfleoedd i ddisgyblion ymdrwytho yn hanes cyfoethog yr ardal leol a Chymru. Mae’r cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymdrwytho mewn gweithgareddau Cymraeg yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a brwdfrydig.

Mae bron pob un o’r athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn y dosbarth ac wrth ddysgu yn yr awyr agored. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy’r ysgol, ac yn datblygu eu medrau datrys problemau yn dda. Fodd bynnag, pan mae athrawon yn gor-gyfarwyddo’r dysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau, nid ydynt bob amser yn datblygu’n ddigonol fel meddylwyr a dysgwyr annibynnol a chreadigol.

# Argymhellion

**A1 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau ddatblygu i fod yn feddylwyr a dysgwyr annibynnol a chreadigol**

## Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â sut mae grwpiau gwella llywodraethwyr yn cael effaith gadarnhaol ar allu llywodraethwyr i gynorthwyo uwch arweinwyr, a pha mor dda y mae staff yn asesu dysgu i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da, i’w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 215 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 159 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 27 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 20.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 17.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/10/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.